

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

HYSBYSIR TRWY HYN yn unol ag Adran 44 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor), ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig cau Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors, Heol Llansteffan, Tre Ioan, SA31 3NQ. Cynhelir yr ysgol ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar [Dudalen Ymgynghori Ysgol Rhyd-y-gors](#).

Y bwriad yw rhoi'r cynnig ar waith ar 31 Awst 2022.

Os caiff yr uchod ei gymeradwyo, o 1 Medi 2022 cynigir bod yr Awdurdod Lleol yn sefydlu Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Lleol yn sefydlu canolfan Gofal Seibiant/Cartref Plant ar safle hen Uned Breswyl/Ysgol Rhyd-y-gors ar 1 Medi 2022. Bydd disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors cyn rhoi'r cynnig ar waith yn cael eu derbyn yn awtomatig i'r UCD o 1 Medi 2022.

Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor.

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **6 Chwefror 2022**, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn. Dylid cyflwyno gwrthwynebiadau drwy: gwblhau'r [arolwg ar-lein](#), anfon e-bost at RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk neu anfon llythyr at Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

Llofnodwyd: Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiedig: 10 Ionawr 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn eglurder)

1. Bwriad yr Awdurdod yw cau Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors o 31 Awst 2022 a darparu ar gyfer disgyblion mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) newydd sydd wedi'i sefydlu ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors o 1 Medi 2022.

2. Bydd disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors cyn rhoi'r cynnig ar waith yn cael eu derbyn yn awtomatig i'r UCD o 1 Medi 2022.
3. O 1 Medi 2022, bydd pob un o gyn-ddisgyblion Ysgol Rhyd-y-gors sydd ag elfen o addysg breswyl yn rhan o'u Datganiad ADY yn parhau i dderbyn hyn ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors.
4. Dylid ystyried sefydlu UCD (yn lle Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors) ar wahân a chaiff hynny ei wneud drwy weithdrefnau ar wahân yn dilyn y penderfyniad angenrheidiol ar y cynnig.